



# Eich Cyngor

Newyddion gan Gyngor Sir y Fflint

## Rhifyn Hydref 2016

### Croeso

#### Rhifyn Hydref 2016

Ar ôl haf prysur o ddiwyddiadau a llwyddiannau chwaraeon, mae rhifyn yr hydref hwn o Eich Cyngor yn crynhoi'r hyn sydd wedi bod yn digwydd a beth fydd yn digwydd o gwmpas ein Sir – gan gynnwys gwybodaeth bwysig am ein sesiynau ymgynghori sydd ar y gweill ym mis Tachwedd, ein mentrau Cymunedau yn Gyntaf Sir y Fflint, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd ac, wrth gwrs, newyddion ar 10fed pen-blwydd Wythnos Fusnes a Gwobrau Sir y Fflint.

Rydym wedi mwynhau dathlu, ynghyd â gweddill Sir y Fflint, cyflawniad rhyfeddol Jade Jones, a'r croeso adref gwych iddi yn y Fflint ar 17 Medi.



Ydi Jade wedi eich ysbrydoli chi i ymgymryd â chwaraeon newydd?

Mae nifer o ddsbarthiadau Taekwondo yn cael eu cynnal gan glybiau lleol, [gan ddefnyddio canolfannau hamdden y Cyngor](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Canolfan-Hamdden-Manylion-Cyswllt.aspx) (<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Canolfan-Hamdden-Manylion-Cyswllt.aspx>), OS hoffech chi gysylltu â chlwb yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch canolfan hamdden leol a fydd yn gallu rhoi manylion cyswllt i chi.

Oes gennych chi awydd rhoi cynnig ar gamp arall? Wel mae llawer ar gael ...



Mae tîm Datblygu Chwaraeon Sir y Fflint yn rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ein rhaglenni sy'n cynnwys Pobl Ifanc Egnïol (Campau'r Ddraig a 5x60), Egnïol 4-16 (rhaglen Cynhwysiad), Chwaraeon Anabledd a'n rhaglen cerdded ar gyfer iechild.

Tîm Sir y Fflint yw un o'r rhai sy'n perfformio uchaf yng Nghymru a'r DU, fel y meincnodwyd gan Quest, safon y diwydiant ar gyfer datblygu hamdden a chwaraeon. Ar ben hyn, mae'r adran wedi derbyn y wobwr rhuban gan Chwaraeon Anabledd Cymru am ei gwaith cynhwysiant.

Mae'r adran yn gweithio gyda chlybiau lleol i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon a hamdden yn y gymuned ar gyfer pob oedran.

Mae 37% o oedolion yn Sir y Fflint yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rheolaidd (3 gwaith neu fwy yr wythnos) a 49% o blant, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Dros y 4 blynedd diwethaf rydym wedi gweld twf mewn chwaraeon megis pêl-droed, tennis, golff, osgoi'r bêl, beicio, codi hwyll a gymnasteg ac rydym yn disgwyl gweld y duedd hon yn parhau gyda llwyddiant y Gemau Olympaidd.

Yn y 4 blynedd diwethaf, mae Chwaraeon Sir y Fflint wedi gweithio gyda chlybiau lleol i'w helpu i ddatblygu eu clybiau, er enghraifft ar hyn o bryd, mae gan Glwb Gymnasteg Castell y Fflint 120 o gymnastwyr newydd yn cymryd rhan yn y gamp.

Mae'r adran hefyd yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd ar garreg y drws a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes chwaraeon. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r tîm wedi gweithio gyda chynghorau tref a chymuned a gyda'r heddlu i redeg mentrau i ferched yn unig, yn ogystal â gweithio mewn cymunedau fel Northop Hall, Treuddyn a'r Holway i ddatblygu cyfle chwaraeon ar garreg y drws.

Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen arweinydd ifanc ffyniannus, gan recriwtio a hyfforddi hyfforddwyr i gyflwyno eu rhaglenni. Roedd Llysgenhadon Ifanc yn rhan o etifeddiaeth 2012 ac mae arweinwyr wedi cymhwyso drwy Sports Leaders UK. Mae hyn yn darparu hyfforddwyr cymorth cymwys o ansawdd uchel ar gyfer yr adran.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r [dudalen Datblygu Chwaraeon](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Sports-Development.aspx) (<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Leisure-Services/Sports-Development.aspx>) ar wefan y Cyngor.



## Sylw ar...

### Sut mae'r Cyngor yn perfformio

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n perfformio ar lefel uchel. Mae ein perfformiad da cyson wedi cael ei gydnabod yn lleol ac yn genedlaethol. Arsylwodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod "perfformiad y Cyngor wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru".

Mae'n her fawr i unrhyw awdurdod lleol gynllunio ymlaen heb syniad pendant o'r cyllid cenedlaethol y byddwn yn ei dderbyn blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Sir y Fflint wedi galw am gynlluniau ariannol mwy hirdymor gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael cymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel ein corff cynrychiadol i wneud yr alwad hon.

Mae Sir y Fflint wedi addasu, moderneiddio a newid i ymdopi â blynyddoedd olynol o ostyngiadau mawr yn ei gyllidebau. Er gwaethaf yr heriau o orfod gwneud mwy gyda llai, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cadw eu huchelgeisiau o gael sir a rhanbarth blaengar a llewyrchus sydd â gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel.

Nodir rhai o'n llwyddiannau nodedig diweddaraf isod:

- Gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol i ddatblygu cynlluniau gofal ychwanegol ledled y sir – Llys Jasmine yn yr Wyddgrug, Llys Raddington a thrydydd un yn Nhreffynnon.
- Gostwng maint rhestrau aros therapi galwedigaethol gyda dros 90 y cant o bobl yn teimlo bod "eu hanghenion wedi'u diwallu'n llawn".
- Y gyfradd boddhad cyffredinol uchaf ag addysg gan Awdurdod Lleol (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru).
- Sefydlu cwmni rheoli eiddo o'r enw Cartrefi Gogledd-ddwyrain Cymru er mwyn ariannu datblygiadau pellach mewn tai fforddiadwy.
- Cynorthwyo dros 100 o bobl i gael swyddi drwy glybiau swyddi a chyflogadwyedd yn 6 o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn yr ardal.
- Cyd-leoli'r fîm cyntaf erioed o Weithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Nyrsys Ardaloedd yn Ysbyty Cymunedol Treffynnon.
- 1,235 o atgyfeiriadau ail-alluogi wedi'u cwblhau mewn blwyddyn gyda 78% o bobl yn gofyn am becyn cymorth llai neu ddim cymorth pellach o gwbl yn dilyn cyfnod o ail-alluogi llwyddiannus.
- Creu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd er mwyn cynorthwyo'r teuluoedd mwyaf agored i niwed.
- Cyd-ariannu ac adeiladu Campws Dysgu Treffynnon a'r ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria.
- 99.6% o bobl 16 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (y nifer uchaf a gyflawnwyd erioed) ar ddiwedd 2014.
- Creu 1,012 o swyddi newydd yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn 2015/16 ac 838 yn 2013/14.
- Cyflawni statws 'cyfeillgar i ddementia' mewn tair tref – Y Fflint, Bwcle a'r Wyddgrug.

### Symud ymlaen gyda Chynllun Gwella Sir y Fflint 2016-17


Mae ein Cynllun Gwella yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'n ddatganiad uchelgais. Mae gan y cynllun wyth thema:

- **Tai** - gwella dewis ac ansawdd tai lleol;
- **Byw yn dda** – galluogi mwy o bobl i fwy'n annibynnol ac yn dda yn eu cartrefi; sicrhau fod pobl ifanc a phlant yn cael eu diogelu;
- **Economi a Menter** – tyfu'r economi a chreu swyddi;
- **Sgiliau a Dysgu** - gwella'r ddarpariaeth dysgu a chyfleoedd i gyflawni gwell canlyniadau i ddysgwyr;
- **Cymunedau Diogel** – cadw pobl a chymunedau'n ddiogel;
- **Tlodi** – amddiffyn pobl rhag tlodi;

- **Yr Amgylchedd** – cael mynediad diogel at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau lleol; diogelu'r amgylchedd;
- **Cyngor Modern ac Effeithlon** – cynorthwyo cymunedau i fod yn wydn a sicrhau fod gwasanaethau'r rheng flaen yn cael eu cynorthwyo'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r diagram isod yn dangos ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 yn fanylach:

## Blaenoriaethau Cynllun Gwella 2016/17



Mae'r Cynllun Gwella yn ar [wefan y Cyngor](http://www.sirylfint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Improvement-Plan.aspx) (<http://www.sirylfint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Improvement-Plan.aspx>).

### Cyfarfodydd Ymgysylltu â'r Cyhoedd - Tachwedd 2016

Mae cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd eleni ar y dyfodol a sut mae Sir Y Fflint yn bwriadu gosod ei gyllideb flynyddol wedi cael eu trefnu. Mae'r dyddiadau a lleoliadau wedi'u rhestru isod.

Bydd y digwyddiadau yn dechrau am 6.30pm ac yn para tan oddeutu 8.30pm. Bydd niferoedd yn gyfyngedig i 200 ym mhob lleoliad.

1 Tachwedd Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle

7 Tachwedd Ysgol Gwynedd, Y Fflint

8 Tachwedd Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug

10 Tachwedd Ysgol Maes y Felin, Treffynnon

- 14 Tachwedd Ysgol Gynradd Sandycroft
- 15 Tachwedd Ysgol Gynradd Brychdyn
- 21 Tachwedd Ysgol Caer Nant, Cei Connah


Cliciwch ar [yma](http://www.flintshire.gov.uk/ECEG) (<http://www.flintshire.gov.uk/ECEG>) i gofrestru eich lle neu fel arall gallwch gofrestru drwy ffonio 01352 701701.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae gan Sir y Fflint hanes hirsefydlog a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau a wasanaethwn yn disgwyl i'r sefydliadau yn y sectorau statudol a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd, gweithio ar flaenoriaethau a rennir a thrwy ymdrech ar y cyd i gyflawni pethau.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI) Sir y Fflint yn 2008 ac roedd yn gyfrifol am osod rhaglen allan ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol i weithio tuag at nodau a rennir.

BGLI Sir y Fflint oedd un o'r rhai a oedd yn perfformio uchaf yng Nghymru fel partneriaeth flaengar yn gweithio gyda'i gilydd i greu effaith. Nodir rhai o'n llwyddiannau isod:



HEFYD:

- Rhaglen Tai Gofal Ychwanegol y Sir
- Datblygu Rhaglen Entrepreneuriaid Ifanc gyda Rhwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint
- Gweithio mewn partneriaeth lwyddiannus â Chanolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu cymorth cyllidebu personol
- Ymestyn Dechrau'n Deg yn y Sir\*
- Yr awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i gael achrediad Rhuban Gwyn am ei waith i fynd i'r afael â cham-drin domestig

\*Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda theuluoedd i wella cyfleoedd bywyd plant yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Ym mis Ebrill daeth y BGLI yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) o dan ddeddf newydd yng Nghymru o'r enw Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r ddeddf newydd hon yn herio partneriaid y sector cyhoeddus i gydweithio i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy feddwl mwy am y tymor hir a defnyddio dull gweithio mwy 'cydgylltiedig' i gyflawni pethau. Y nod genedlaethol yw creu Cymru yr ydym i gyd am fyw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol.


Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ei egni, ei ymdrech a'i adnoddau ar rai o faterion cymdeithasol mawr cyfredol. Ei brif bartneriaid yw:-

- Cyngor Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

- Coleg Cambria
- Prifysgol Glyndŵr
- Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Llywodraeth Cymru

Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwyllo Cynllun Lles i Sir y Fflint.

Y saith nod a osodir ar gyfer Cymru yw:



Mae'r Bwrdd wedi gosod y blaenoriaethau canlynol ar gyfer camau lleol:-

- Cefnogi Byw'n Annibynnol
- Diamddiffynedd, Ymyrraeth ac Atal
- Ysbrydoli Cydnerthu Cymunedol
- Ymarfer Corff ac Ymddygiad Llonydd
- Cynorthwyo Teuluoedd ag Anghenion Cymhleth

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u dewis gan eu bod yn feysydd y gall y Bwrdd ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth go iawn ynddynt. Cydweithio i greu effaith yn y blaenoriaethau hyn yw nod y partneriaid ar y cyd

Chwiliwch am ddiweddariadau am berfformiad y BGC yn rhifynnau'r dyfodol o Eich Cyngor.

## Glannau Dyfrdwy Llewyrchus Llawn Addewid

Lansiwyd rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2013 a gwahoddwyd pob awdurdod lleol i gyflwyno cynigion cystadleuol.

Nodau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw "y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, llawn addewid a chynaliadwy gydag economi lleol cryf ac ansawdd bywyd da."

Roedd Cyngor Sir y Fflint yn llwyddiannus ar ôl cyflwyno rhaglen waith ar gyfer ardal Glannau Dyfrdwy, gan gynnwys gwelliannau trafniadaeth, buddsoddi mewn tai, adfywio canol y dref a gweithredu i gefnogi twf a sgiliau busnes. Mae'r llwyddiant hwn yn dilyn llwyddiannau blaenorol; sicrhau statws Cymunedau yn Gyntaf, Ardal Adnewyddu Tai a rhaglenni Ardal Fenter.

I ddechrau, dyfarnwyd £6.024m i'r Cyngor dros gyfnod o dair blynedd i dargedu prosiectau adfywio yng Nglannau Dyfrdwy. Yna, cynyddwyd hwn i £7.391m yn sgil y cynnydd ardderchog a wnaed. Cafodd y cronfeydd hyn eu cefnogi gan fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat ac maent wedi arwain at nifer o lwyddiannau adfywio allweddol hyd yn hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint:

"Mae'r grant hwn gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad arall, yn newyddion cadarnhaol ac yn adlewyrchu'r ymagwedd dda i adfywio ledled Glannau Dyfrdwy. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi datblygu rhaglen uchelgeisiol a chyffrous i gysylltu'r cyfleoedd economaidd a grëwyd gan Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy i'r ardal ehangach, gan ledaenu'r buddion ar draws Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint a'r rhanbarth ehangach. Mae bod yn ardal Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid yn hwb mawr i economi Sir y Fflint ac mae'r rhaglen i fod i redeg tan fis Ebrill 2017."

**Mae £280,000 wedi ei ddyrannu i gynllun Grant Gwella Blaen Siop Glannau Dyfrdwy** sy'n ariannu grantiau o hyd at £15,000 i wella golwg allanol siopau ac eiddo masnachol o fewn canol trefi Glannau Dyfrdwy sef Cei Connah, Garden City, Shotton a Queensferry.

Mae'r cynllun, sy'n cynnig 80% o'r cyllid sydd ei angen ar bob eiddo ac sydd wedi bod yn rhedeg ers mis Medi 2015, yn helpu 19 o denantiaid siop a pherchnogion eiddo ar hyn o bryd.

Mae gwaith adeiladu ar y cynlluniau cyntaf yn dechrau y mis hwn (Medi) a dylai gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2016.

Dywedodd Derek Butler, Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint dros Ddatblygu Economaidd:

"Mae'r rhaglen hon yn cydnabod y rôl bwysig y mae canol trefi ac ardaloedd siopa yn ei chwarae. Mae busnesau bach yn hanfodol i iechyd ein strydoedd mawr a bydd y cynllun grant hwn yn helpu busnesau i fuddsoddi yn eu heiddo, denu cwsmeriaid a gwella ymddangosiad canol ein trefi".

Un cwmni sydd eisoes wedi elwa o grant yw 'Enbarr Recruitment and Training'. Roeddent yn gallu cyflawni nifer o waith gwella, gan gynnwys ffenestri newydd i wella ffryntiad y stryd, arwyddion newydd, diweddarau a gwella cwteri, peintio'r adeilad ac atgyweirio'r gwaith brics.

Dywedodd Vicki Roskams, perchennog Enbarr Recruitment and Training:

"Rydym yn falch iawn o gyhoeddi agoriad ein swyddfa newydd yn Queensferry, sy'n creu swyddi a'r cyfle i fuddsoddi yn yr hyn sy'n faes gwych.

"Mae hyn wedi bod yn bosibl trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Mae'r fenter Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid yn cyflwyno posibiliadau gwych a byddwn yn annog eraill i ddysgu mwy amdano, er mwyn helpu i wella ymddangosiad y stryd a'r ardal leol."

Mae'r **Grant 'Byw Uwchben y Siopau' (LOTS)** yn cynnig £20,000 tuag at adnewyddu llety presennol neu drosi lle storio na chaiff ei ddefnyddio uwchben siopau yn llety preswyl o fewn ardal ddynodedig Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae £60,000 y flwyddyn wedi bod ar gael i'r cyngor dros gyfnod o 3 blynedd, gan ariannu 3 phrosiect y flwyddyn.

Mae'r lluniau isod yn dangos enghraifft o'r gwaith a gwblhawyd yn 70 Chester Road East, Shotton. Cafodd yr eiddo hwn ei adnewyddu ac mae bellach yn gweithredu fel Tŷ Trwyddedig Amlbreswyl, gan gynnig llety 4 uned gyda chyfleusterau a rennir.

Cafodd dynes fusnes arall o Queensferry, Susan Wong, gymorth ariannu drwy gyfrwng grantiau DSIG a LOTS i wella siop a lle byw yn 26 Station Road, Queensferry, eiddo a oedd wedi bod yn wag ac mewn cyflwr gwael am nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi galluogi i Susan ymgymryd â rhaglen gynhwysfawr o adnewyddu'r eiddo. Y canlyniad yw eiddo sydd yn ased gwirioneddol i dref Queensferry. Mae'r eiddo bellach yn darparu llety rhent fforddiadwy delfrydol a lle manwerthu o safon uchel.

Mae'r arian a gynigir gan y ddau gynllun hyn wedi helpu i gryfhau apêl canol tref Queensferry fel lle i fyw a siopa, gan helpu i gynnal bywiogrwydd unigryw Queensferry fel pwynt mynediad at ardaloedd busnes, cyflogaeth, manwerthu, hamdden a phreswyl poblogaidd Glannau Dyfrdwy.

**Ond nid dim ond busnesau all elwa o grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.** Ymgynghorwyd â thrigolion ar sut i wario £200,000 ar welliannau amgylcheddol yn ardal Garden City.



Mae coed a llwyni wedi eu plannu mewn mannau cyhoeddus priodol, yn ogystal â disodli ffensys o ansawdd gwael a gosod meinciau a byrddau picnic.

Cynigiwyd plannu coed a gwrychoedd i gartrefi preifat a chartrefi cyngor hefyd, lle gall perchnogion a thenantiaid ymrwymo i'w cynnal yn y dyfodol.



**Mae'r cyllid hefyd wedi helpu'r cyngor yn ei uchelgais hirdymor i adfywio Glannau Dyfrdwy.** Mae'r cyngor wedi caffael hen adeilad llaethdy ar Ffordd yr Wyddgrug, Cei Connah ac eiddo cyfagos ar Stryd Fawr y dref. Dewiswyd yr eiddo gan eu bod yn cynrychioli safle allweddol yng Ngheir Connah, roedd llawer yn wag ac roedd y rhan fwyaf mewn cyflwr gwael iawn. Cafodd yr eiddo olaf ei gaffael ym mis Mawrth 2015, diolch i gyllid gan Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i alluogi aiddatblygu'r safle.



Mae partner datblygu strategol y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP), Wates Living Space, bellach yn adeiladu cartrefi newydd cyntaf y cyngor ers dros 20 mlynedd ar y safle.

## CUSTOM HOUSE SCHOOL CONNAH'S QUAY



## SITE PLAN

HALLIDAY CLARK  
ARCHITECTS



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL

Wates

**Mae cyfanswm o 366 o dai cyngor ledled Glannau Dyfrdwy wedi cael paneli solar, gan wneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon a lleihau tiodi tanwydd.** Mae hyn yn ategu'r strategaeth ynni ehangach o inswleiddio eiddo, yn fewnol ac yn allanol, yn ogystal â dod â nwy i gymunedau sydd wedi bod yn dibynnu ar ffurfiau mwy costus o wresogi yn flaenorol.

Mae'r paneli yn lleihau costau rhedeg yr eiddo, gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon. Mae'r tenantiaid yn elwa o drydan yn rhad ac am ddim yn ystod oriau golau dydd ac mae'r cyngor yn deillio incwm o'r trydan dros ben a gynhyrchir y gellir ei ail-fuddsoddi yn y stoc dai. Rhagwelir y bydd tenantiaid yn arbed dros £3.3 miliwn dros oes y paneli o 20 mlynedd.

**Mae perchnogion tai preifat hefyd wedi gallu elwa o inswleiddio waliau allanol i'w heiddo.** Hyd yma, mae 181 o gartrefi wedi cael eu hinswleiddio, a bydd 70 o berchnogion tai eraill yn elwa ym mlwyddyn olaf y rhaglen.

Mae inswleiddio waliau allanol yn fesur cymharol ddrud i'w osod, ond mae'n rhoi buddion enfawr o ran effeithlonrwydd thermol eiddo. Drwy gylich cyfredol ariannu, mae'r cyngor wedi bod yn targedu eiddo waliau solet ar rai strydoedd ledled Glannau Dyfrdwy.

Bydd effeithlonrwydd thermol cynyddol yr eiddo hyn yn gweithredu i leihau biliau tanwydd yn sylweddol a helpu i leddfu tiodi tanwydd. Mae'r cynllun, sy'n gofyn am gyfraniad o £500 gan y perchennog, wedi bod yn hynod o boblogaidd ac mae'r galw yn parhau i fod yn uchel. Mae'r cyllid cyfredol wedi'i gyflawni, ond mae'r cyngor yn cadw rhestr o berchnogion tai sydd â diddordeb rhag ofn y bydd mwy o arian ar gael.

**Mae gwaith pellach yn cynnwys y Cynllun Atgyweirio Grŵp mewn ardaloedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Glannau Dyfrdwy yng Ngheir Connah, Queensferry a Shotton.**

Caiff y Cynllun Atgyweirio Grŵp ei ariannu ar y cyd gan Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Arian Grant Cyfalaf Penodol ar gyfer Ardaloedd Adnewyddu, Cyngor Sir y Fflint a chyfraniadau cleientiaid sydd wedi cael prawf modd.

Mae'r Cynllun Atgyweirio Grŵp yn cynnwys gwaith adnewyddu allanol eiddo preifat yn yr Ardal Adnewyddu, sy'n cynnwys adnewyddu gorchuddion to llechi, estyll tywydd, cwteri, staciau pridd, peipiau dŵr, pibelli carthion, ffenestri, drysau allanol, waliau ffin blaen, ffensys, llwybrau, giatiau a gwaith atgyweirio strwythurol.

Mae'r gwaith yn gwella ansawdd y stoc tai preifat presennol yn Sir y Fflint drwy ddefnyddio contractwyr lleol profiadol yn y maes hwn o waith a thrwy ddefnyddio deunyddiau traddodiadol ansawdd uchel o ffynonellau lleol fel llechi Cymru ar gyfer y toeau.

Cafodd £200,000 o gyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ei wario ar y Cynllun Atgyweirio Grŵp ar dri ar ddeg o dai yn Glynne Street, Queensferry yn ystod 2014/15, tra cafodd £250,000 arall ei wario ar 22 eiddo Cynllun Atgyweirio Grŵp yn Glynne Street, a Bank Road, Ceir Connah yn ystod 2015/16.

Nod y rhaglen yw cynyddu balchder perchnogion eiddo yn eu cartrefi wedi'u hadnewyddu a pharhau i fyw yn yr ardal, a thrwy hynny gynnal y cymunedau sy'n byw yng Nglannau Dyfrdwy.

Golwg ar waliau edrychiad ôl 44 Glynne Street cyn (chwith) ac ar ôl (de) gosod System 'Alumasc' Inswleiddio Wal Allanol wedi'i rendro.



Yn ogystal, sicrhodd **Strydwedd Sir y Fflint** gyllid gan Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid sydd wedi cael ei ddefnyddio ar nifer o welliannau yng Nglannau Dyfrdwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- System goleuadau LED 3km ar hyd Llwybr Seiclo Cenedlaethol 5 rhwng Dock Road, Ceir Connah a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Yn 2015, defnyddiodd tua 65,000 o feicwyr a 54,000 o gerddwyr y llwybr hwn. Wrth gyflwyno'r cynllun goleuo, disgwyllir y bydd y defnydd yn cynyddu.
- Cynllun i ehangu ac uwchraddio llwybrau troed cyswllt presennol a llwybrau troed rhwng Sandycroft, Queensferry a Shotton i ddarparu cyfleuster cerdded / beicio ar y cyd.
- Gosod croesfan twcan yn Stryd yr Eglwys, Ceir Connah.
- Cynyddu'r lleoedd parcio ceir ym maes parcio Terrig Street a maes parcio Gorsaf Shotton.

**Mae'r canolbwynt newydd yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy** wedi elwa o fuddsoddiad o £250,000.





Mae'r cyntedd mewnol, y brif fynedfa a'r ardal chwarae wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol. Mae'r cyntedd wedi'i drawsnewid a'i ailaddurno i gyd-fynd â'r Llyfrgell newydd integredig yng Nglannau Dyfrdwy.



Mae'r fynedfa wedi cael ei thirlunio i wella ei apêl gweledol, mynediad a goleuni. Mae amrywiaeth o eitemau chwarae newydd wedi cael eu gosod sydd wedi gwella ymddangosiad a gwerth, ac yn cynnwys byrddau picnic a seddi. Mae'r ardal chwarae hon yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd ifanc a chwsmeriaid y ganolfan hamdden.



**Mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wedi bod yn allweddol wrth wella cyfleusterau cymunedol eraill yng Nglannau Dyfrdwy hefyd.** Rhai o'r cynlluniau rydym wedi gallu eu rhoi ar waith yn:

Mae gan dir hamdden Welsh Road yn Sealand Ardal Gemau Amldeffnydd newydd bellach, sy'n disodli'r hen gôl ac yn cynnwys ffens newydd ar hyd Welsh Road. Yn ogystal â gwaith adnewyddu sylweddol ar yr offer chwarae, gyda phaneli newydd a rhaffau, rheiliau llaw a seddi.



Mae cae chwarae Central Drive, Shotton, wedi cael ei dirlunio ac yn cynnwys llwybrau cyswllt newydd i gerddwyr o fewn y maes chwaraeon, seddi a ffensys newydd. Bydd giât fynediad newydd hefyd yn gwella mynediad cadair olwyn a choets ddwbl, gan wella apêl yr ardal.



Mae ardal chwarae Alexandra Street, Shotton, wedi ei gwella drwy ddarparu ystod o offer chwarae deinamig.



Erbyn hyn, mae gan ardal chwarae Central Park yng Nghei Connah, Lecyn Gemau Amldeffnydd ar gyfer chwaraeon pêl anffurfiol y gellir ei ddefnyddio gydol y flwyddyn.

**Mae Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid hefyd wedi rhoi'r cyfle i bobl ifanc yng Nglannau Dyfrdwy weithio gyda Groundwork Gogledd Cymru ar raglen hyfforddi o'r enw "Y Tim Gwyrdd".** Mae'r rhaglen, a ddechreuodd ym mis Medi 2014, hyd yn hyn, wedi darparu 5 cam y rhaglen hyfforddeiaeth, gan ddarparu rhaglen hyfforddeiaeth ymarferol 12 wythnos o hyd i tua 90 o bobl ifanc 16 - 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r bobl ifanc yn dysgu sgiliau hyfforddi a chyflogadwyedd yn ogystal â chael profiad gwaith ymarferol yn cyflwyno prosiectau cymunedol lleol i wella ymddangosiad manau gwyrdd o amgylch Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint.

Mae prosiectau y mae hyfforddeion wedi gweithio arnynt wedi adfywio ac adnewyddu ardaloedd o amgylch Glannau Dyfrdwy gan gynnwys creu llwybrau beicio newydd ym Mharc Wepre, cynnal a gwella tiroedd yng Nghanolfan Iechyd Cei Connah, a chlirio'r Stryd Fawr yng Nghei Connah.

## Cymunedau yn Gyntaf yn Sir y Fflint

Ym mis Ebrill 2012, cafodd Cymunedau yn Gyntaf, Rhaglen sy'n canolbwyntio ar y Gymuned ac sy'n cefnogi rhaglen Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, ei hail-lansio.

Lansiwyd Cymunedau yn Gyntaf yn wreiddiol yn 2001 ac mae'r cam nesaf hwn yn cadw goreuon y rhaglen gynharach.

Mae'n cefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda'r nod o gyfrannu at liniaru tlodi parhaus.

Mae Timau Cyflenwi Cymunedau yn Gyntaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gyda thrigolion, sefydliadau cymunedol, busnesau ac asiantaethau allweddol eraill yn yr ardaloedd hyn, a elwir yn "glostyrau", ac yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n arwain at gynaliadwyedd a lles hirdymor i gymunedau. Mae cynnwys pobl leol ym mhob agwedd ar y gwaith hwn yn nodwedd hanfodol i'r rhaglen.

Ochr yn ochr â rhaglenni eraill, mae Cymunedau'n Gyntaf yn anelu at gyfrannu tuag at leihau'r bylchau addysg/sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf amddifad a'n hardaloedd mwy cefnog.

Mae gan y Rhaglen dri amcan strategol yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn:

- Cymunedau Llewyrchus
- Cymunedau sy'n Dysgu
- Cymunedau Iachach Mae'r gwaith y mae'r tîm hwn yn ei wneud yn amhrisiadwy i'r cymunedau lleol – mae rhai o'r pethau sydd wedi cael eu cyflawni eleni yn dyst o hyn.

Mae Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn rhedeg y rhaglen Esgyn ar gyfer Sir y Fflint - rhaglen sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd wedi treulio mwy na chwe mis yn ddi-waith neu heb hyfforddiant ac sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i ddod yn gyflogadwy.

Mae'r gwaith y mae'r tîm hwn yn ei wneud yn amhrisiadwy i'r cymunedau lleol – mae rhai o'r pethau sydd wedi cael eu cyflawni eleni yn dyst o hyn.



**Dragon's Den Cymru 2016** – digwyddiad am ddim a gynhelir bob blwyddyn gan Cymunedau'n Gyntaf wedi'i anelu at unrhyw un sydd am sefydlu eu busnes eu hunain. Mae hyn yn rhan o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud drwy Rwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint, gan helpu pobl leol ddod o hyd i gyflogaeth ym marchnad lafur heddiw. Eleni, mynegodd saith entrepreneur addawol eu syniadau i'r dreigiau a chawsant oll adborth cadarnhaol.

- Mae **Clwb Mentor Sir y Fflint** sy'n cyfarfod bob yn ail ddydd Gwener, wedi helpu 100 o bobl leol a sefydlodd eu busnes ers ei sefydlu

bedair blynedd yn ôl. Mae'r grŵp, sy'n cael ei reoli gan Cymunedau yn Gyntaf, yn cynghori pobl ar gysiau a grantiau a allai fod o fudd i'w busnes, yn ogystal â darparu mentor perthnasol i'w helpu i ddatblygu eu busnes neu eu syniad busnes. Mae'r grŵp hefyd wedi gwahodd siaradwyr a chynghorwyr o asiantaethau eraill, megis Busnes Cymru. Mae'r sesiynau bob amser yn gyfeillgar, yn llawn gwybodaeth ac yn llawn egni, cydweithrediad, ysbrydoliaeth a syniadau! Mewn cyfarfod diweddar, cafwyd amrywiaeth o bobl a syniadau - yn amrywio o fusnesau sefydledig i frandio syniadau newydd – pob un yn chwilio am y cam nesaf.



Mae'r clwb yn rhad ac am ddim i'w fynychu ac yn cyfarfod bob pythefnos ar Gampws Cymunedol John Summers, Chester Road East, Queensferry, Glannau Dyfrdwy CH5 1SE. Cynhelir y cyfarfodydd bob yn ail ddydd Gwener o 10.30am tan 12:30pm. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Cymunedau yn Gyntaf ar 01244 846090 neu anfonwch e-bost at [beverly.moseley@flintshire.gov.uk](mailto:beverly.moseley@flintshire.gov.uk) (<mailto:beverly.moseley@flintshire.gov.uk>).

Prosiect arall a elwir yn "**Sky's the Limit**", mewn partneriaeth â Phartneriaeth y Gogledd Ehangach a'r Canolbarth a Theatr Clwyd, yw rhaglen busnes arloesol ar gyfer ysgolion cynradd. Wedi'i ysbrydoli gan "Dragons' Den Cymru" ac wedi'i dreialu yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, ei nod yw ymgysylltu â phlant 9-11 oed i ddatblygu hyder, siarad cyhoeddus, Mathemateg a Saesneg mewn ffordd hwyliog, gyda'r nod yn y pen draw o'u paratoi i greu syniad busnes ar gyfer "Angels", sydd i gyd yn entrepreneuriaid busnesau lleol sy'n gwirfoddoli eu hamser.

Mae Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn cynnal nifer o ffeiriau swyddi trwy gydol y flwyddyn, gan weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae'r rhain wedi dod yn ddigwyddiadau hynod lwyddiannus sy'n arwain at lawer o bobl leol yn cael cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mewn digwyddiad ym mis Ebrill eleni, cafwyd 300 o gyfleoedd cyflogaeth a dros 500 yn bresennol.

Mae'r tîm wedi ymuno â FareShare FoodCloud yn ddiweddar, sy'n anelu i aildosbarthu bwyd sy'n iawn i'w fwyta o siopau yn uniongyrchol i elusennau a grwpiau cymunedol. Fel enghraifft, mae dau grŵp sy'n darparu prydu bwyd poeth a lluniaeth i'w cymunedau ym Maes Glas am brisiau fforddiadwy wedi cael cymorth yn ddiweddar – Clwb Cinio Maes Glas a grŵp bore coffi Maes Glas.



Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn cefnogi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru hefyd, gydag arolwg cenedlaethol yn edrych ar brofiadau pobl hŷn o gael mynediad i wasanaethau Meddyg Teulu.



Mae'r rhaglen Esgyn wedi bod yn helpu pobl leol sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na chwe mis. Dyma ddwy o'u straeon:



Ymunodd Neriesha Coathupe â rhaglen Esgyn ym mis Mehefin y llynedd. Mae hi'n byw yn Shotton ac wedi bod yn derbyn budd-daliadau am dros 3 blynedd. Roedd ganddi brofiad blaenorol o gael ei chyflogi fel gwarchodwr plant, mae ei phlant wedi tyfu fyny ac roedd hi'n teimlo ei bod yn barod i sefydlu ei busnes gwarchod plant o'i chartref ei hun.

Wrth sôn am ei hamser ar raglen ESGYN, dywedodd Neriesha: "Mae wedi bod yn ffordd hir i ddechrau fy musnes gwarchod plant ond gyda chefnogaeth a chymorth gan fy mentor ESGYN, rwyf wedi gallu dyfalbarhau a chyflawni fy mreuddwyd. Mae yna lawer o sefydliadau allan yna ond mae ESGYN yn unigryw gyda'i chefnogaeth un i un, ac mae hyn wedi bod yn allweddol i mi ddechrau fy musnes. Os hoffai unrhyw un gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch fi ar 0787 6133340."



Cofrestrodd Kane, sy'n 19 oed gydag ESGYN ym mis Ebrill y llynedd a sylweddolodd yr hoffai ddilyn gyrfa yn y diwydiant adeiladu. Trefnodd y tîm ESGYN gyrsiau perthnasol amrywiol ac yna cafodd ei gymryd fel prentis ar sail barhaol. Dywedodd Kane wrth siarad am ei brofiadau gydag ESGYN Sir y Fflint: "Rhoddodd ESGYN gyfle i fi gael gwaith, ond hefyd rhoddodd gychwyn i fi ar lwybr gyfra. Rydw i'n 19 oed ac mae gen i nod gyrfa bellach. Mae'r cymwysterau sydd gen i bellach ar fy CV, yn ogystal â'm profiad gwaith, wedi fy ngwneud yn benderfynol o gyflawni fy nyheadau. Heb ESGYN Sir y Fflint a'r cyfleoedd gwych maent wedi ei roi i fi, ni fyddai hyn wedi bod yn bosib."

Os oes gennych ddi-ddordeb ymuno â rhaglen Esgyn a'ch bod yn cwrrd â'r meini prawf a nodir isod, mae croeso i chi gysylltu â ni ar: 01244 846090 neu e-bostiwch <mailto:Debbie.barker@flintshire.gov.uk> (<mailto:Debbie.barker@flintshire.gov.uk>).

Dywedodd Rheolwr Clwstr Cymunedau yn Gyntaf Sir y Fflint, Sharon Jones:

"Rwy'n hynod o falch o'r hyn y mae ein tîm wedi ei gyflawni a byddwn yn parhau i helpu a chefnogi trigolion Sir y Fflint gymaint ag y gallwn. Mae'n wych gweld cymaint o bobl yn dod o hyd i gyflogaeth ac yn cyflawni eu breuddwydion, ond nid yw ond am hynny, mae'n ymwneud â chefnogi pawb i fod ar eu gorau a chyflawni cymaint ag y gallant - os gall Cymunedau yn Gyntaf eu helpu i wneud hynny, yna fe wnawn."

## Penderfyniad anodd yn wynebu'r Cyngor

## Hydref – Tymor Pwysig ar gyfer Cyllidebau Cenedlaethol

Bydd y disgwyl am y cyllidebau a fydd yn cael eu gosod gan y Llywodraeth drosodd yn fuan. Bydd Cyllideb Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei chyhoeddi ar 18 Hydref gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn cael ei dilyn yn gyflym gan ddatganiad cyllideb genedlaethol gyntaf y Canghellor newydd y Trysorlys, Phillip Hammond AS, ddiwedd mis Tachwedd.

Y llynedd, amlinellodd Sir y Fflint ymgyrch yn galw am gefnogaeth leol i apelio at Lywodraeth Cymru am rywfaint o ryddhad rhag y toriadau blynyddol didrugaredd i'n grant cenedlaethol. Mae grant y llywodraeth yn cyfrif am yn agos i dri chwarter o gyllideb y Cyngor. O dan yr ymgyrch *Dyma ein Cyfle Ni* amlinellom y gwasanaethau lleol a fyddai mewn perygl oni bai fod Llywodraeth Cymru yn gwrando. Roedd y Cyngor wedi chwarae ei ran wrth ddod o hyd i lefelau digynsail o arbedion lleol ond ni allai bontio'r bwlch cyllido ar ei ben ei hun. Mi wnaeth Llywodraeth Cymru wrando, a gyda'n gilydd llwyddom i atal gwasanaethau rhag cael eu hamlygu i doriadau mawr a hyd yn oed cau.

Rydym yn wynebu her debyg ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Cyngor eisoes wedi llwyddo i ddod o hyd i £6 miliwn o arbedion pellach. Ni fydd hyn, er hynny, yn ddigon i gwrdd â'r bwlch yn y gyllideb a ragwelir ar gyfer 2017/18. Mae'r bwlch sy'n weddill, o oddeutu £8 miliwn, yn dal yn arwyddocaol ac o gryn bryder. Achosir y bwlch gan gostau'r galw cynyddol am rai gwasanaethau, effaith y Cyflog Byw yn bennaf yn y sector gofal cymdeithasol cyflog isel, cynnydd yng nghostau'r gweithlu, costau diwygiadau pensiwn a newidiadau i ardollau trethiant Llywodraeth. Mae llawer o'n gwasanaethau yn cyrraedd pen eu tennyn gyda'u cyllidebau llai a gyda phob blwyddyn sy'n mynd heibio, mae'r opsiynau ar gyfer gwneud arbedion yn lleihau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod cyllideb heb unrhyw ostyngiadau pellach yn y prif grant ar gyfer cynghorau a elwir y Grant Cynnal Refeniw, i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i amddiffyn y sector gofal cymdeithasol, a rhoi rhyddid i gynghorau amrywio ffioedd a thaliadau lleol am wasanaethau lle mae cwsmeriaid yn gallu talu. Sir y Fflint yw un o'r cynghorau sy'n derbyn y lefel isaf o arian yng Nghymru ac yn fwyaf agored i effaith gynyddol y gostyngiadau blynyddol ar y gyllideb. Rydym ni, a chynghorau eraill, yn galw am adolygiad o'r system ariannu llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod cyllid digonol a theg ar gyfer pob cyngor yn y dyfodol.

Byddwn yn cynnal ail dymor o gyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd i rannu ein sefyllfa, i egluro ein cynllun ac i wahodd eich cefnogaeth. Gweler isod am fanylion. Chwiliwch am fwy o wybodaeth ar ein gwefan.

Mae **cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd** eleni ar y dyfodol a sut mae Sir Y Fflint yn bwriadu gosod ei gyllideb flynyddol wedi cael eu trefnu. Mae'r dyddiadau a lleoliadau wedi'u rhestru isod.

Bydd y digwyddiadau yn dechrau am 6.30pm ac yn para tan oddeutu 8.30pm. Bydd niferoedd yn gyfyngedig i 200 ym mhob lleoliad.

1 Tachwedd	Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle
7 Tachwedd	Ysgol Gwynedd, Y Fflint
8 Tachwedd	Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug
10 Tachwedd	Ysgol Maes y Felin, Treffynnon
14 Tachwedd	Ysgol Gynradd Sandycroft
15 Tachwedd	Ysgol Gynradd Brychdyn
21 Tachwedd	Ysgol Caer Nant, Cei Connah

Cliciwch ar [yma \(http://www.flintshire.gov.uk/ECEG\)](http://www.flintshire.gov.uk/ECEG) i gofrestru eich lle neu fel arall gallwch gofrestru drwy ffonio 01352 701701.

---

## Newyddion y Cyngor

### Llwyddiant Tai Sir y Fflint

Credwn fod gan ein holl drigolion yr hawl i lety a safonau byw gweddus a phriodol. Dyna pam rydym yn gweithio gyda nifer o gontractwyr i wella ein stoc tai presennol yn ogystal â buddsoddi mewn adeiladu stoc tai cyngor newydd am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth.

Rhoesom drosolwg i chi yng nghylchlythyr mis Mai ar yr hyn oedd yn digwydd, a dyma'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ddau o'n prosiectau mawr.

#### Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP)

Rhaglen SHARP yw'r cyntaf o'i math yng Nghymru, a bydd yn golygu bod hyd at 2,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn ogystal â chreu tua 20 swydd prentis i bobl leol. Amcangyfrifir y bydd isgontractwyr Sir y Fflint yn elwa ar becynnau gwaith gwerth £40m drwy gydol y rhaglen.

Ym mis Mai, cytunodd y Cyngor i ddarparu cyllid cyfalaf i ariannu datblygiad o 62 o dai fforddiadwy yn y Fflint - y cyngor cyntaf yng Nghymru i gytuno ar y dull chwyldroadol hwn i ariannu tai fforddiadwy.

Unwaith y bydd y cartrefi hyn wedi'u hadeiladu, byddent yn cael eu rheoli gan NEW Homes (Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru), cwmni a sefydlwyd gan y Cyngor ym mis Ebrill 2014 i gynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael i drigolion lleol. Mae'r arian hwn caniatáu i NEW Homes ymestyn ei gynnis o dai fforddiadwy o ansawdd yn y Fflint ac ar draws y sir.

Dyweddodd y Cyngorydd Aaron Shotton, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint:

“Mae'n ffordd wirioneddol arloesol a chyffrous i ariannu tai fforddiadwy ar gyfer ein trigolion. Bydd y datblygiad hwn yn cefnogi cyflawni amcan strategol allweddol yng Nghynllun Gwella'r Cyngor wrth gynhyrchu enillion ariannol i'r Cyngor ar gyfer y 45 mlynedd nesaf.”

Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i ddatblygu 40 o gartrefi newydd y Cyngor ar 5 safle yn yr Wyddgrug, Coed-llai a Chei Connah dan Gam 2 SHARP. Bydd y cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ar safleoedd Ysgol Delyn, Yr Wyddgrug (16); Heol y Goron (5) a Maes y Meilion, Coed-llai (8); Redhall (5) a The Dairy, Ffordd yr Wyddgrug (6) yng Nghei Connah.

Bydd pob eiddo yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â Safon Tai Sir y Fflint y Cyngor. Mae'r safon yn cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Dylunio Llywodraeth Cymru a bydd yn llywio cynllun a manyleb yr holl dai newydd a ddarperir drwy'r rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cynllun mewnlol cyson o ansawdd i eiddo, safonau uchel o effeithlonrwydd ynni a pharcio digonol.

Dyweddodd y Cyngorydd Shotton:

“Mae'r 5 safle yn ffurfio cyfnodau allweddol nesaf ein rhaglen adeiladu tai uchelgeisiol a bydd yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud ar y datblygiadau cyntaf sydd ar ddod yn The Walks yn y Fflint ac yng Nghei Connah ar safle hen Ysgol Custom House Lane, lle disgwylir y bydd y tai Cyngor newydd cyntaf ers dros 20 mlynedd wedi'u cwblhau cyn y Nadolig.”

### Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Mae SATC yn safon ansawdd genedlaethol ar gyfer cartrefi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n golygu y dylai holl denantiaid Cymru gael y cyfle i fyw mewn cartrefi o safon dda sy'n cwrdd gofynion y cartref.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio'n galed i gyflawni'r safon hon yn ei holl eiddo cyn y dyddiad cau sef 2020.

I'r rhai ohonoch sydd wedi bod i'r Fflint yn ddiweddar, mae'n siŵr eich bod wedi sylwi ar y trawsnewid i'r Tyrau nŵan bod y sgaffaldiau wedi dod i lawr. Mae gwaith i du mewn yr adeiladau hefyd wedi cael ei gwblhau.

Mae'r Cyngor wedi gosod system chwistrellu drwy'r tri bloc cyfan, ac yn gweithio'n agos gyda **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**.

Cymerodd y prosiect cyfan dair blynedd, o'r broses dendro pan benodwyd cwmni De Cymru **RSP Sprinklers Wales** i ymgymryd â'r gwaith.

Rhaid gosod chwistrellwyr ym mhob adeilad newydd, yn dilyn cyflwyniad rheoliadau adeiladu newydd ym mis Ionawr eleni. Er nad yw'n ofyniad i osod systemau chwistrellu mewn adeiladau hŷn, penderfynodd y Cyngor osod chwistrellwyr ym mhob un o'r 270 o fflatiau (Richard Heights - 84 o fflatiau, Castle Heights - 84 o fflatiau, Bolingbroke Heights - 102 o fflatiau).

Dyweddodd y Cyngorydd Helen Brown, Aelod Cabinet dros Dai Cyngor Sir y Fflint:

“Mae chwistrellwyr wedi'u gosod yn lolfa, cegin, ystafell wely a chyntedd pob fflat, yn ogystal ag ym mhob man cymunedol, gan gynnwys yr islawr. Fel Cyngor, rydym wedi rhagori ar y disgwyliadau er mwyn sicrhau bod ein trigolion yn cael tawelwch meddwl ac yn teimlo'n fwy diogel. Gallai'r diogelwch cynyddol gael effaith gadarnhaol ar gynilion mewn yswiriant i'r Cyngor ac i'n trigolion.”

Dyweddodd Stuart Millington, Uwch Reolwr Diogelwch Tân gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:

“Roeddem yn falch o fod yn gweithio ar y prosiect hwn gyda'r Cyngor ac **RSP Sprinklers Wales** i ddarparu llety diogel i drigolion y tri bloc tŵr yn y Fflint.

“Mae tystiolaeth glir y gall systemau chwistrellu fod yn effeithiol wrth atal tanau rhag lledaenu, gan wella diogelwch tân yn sylweddol, a lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol o ganlyniad i dân. Mae synwryddion mwg yn system rybuddio wych ar gyfer rhybuddio bod tân, ond bydd system chwistrellu yn rheoli tân, a gall ei ddiffodd, gan amddiffyn y preswylwyr.”

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda **Warmer Energy Services** hefyd, i ddiweddar'u'r systemau gwresogi yn yr 84 o fflatiau yn Richard Heights a'r 102 o fflatiau yn Bolingbroke Heights - cyfanswm o 286. Mae gan y ddau floc yma system gwresogi gyffredin sydd bellach wedi cael ei uwchraddio i ymdrin â materion megis costau ynni.

Dyweddodd y Cyngorydd Helen Brown, Aelod Cabinet dros Dai Cyngor Sir y Fflint:

“Bydd uwchraddio'r systemau gwresogi a system dŵr poeth yn sicrhau bod y trigolion yn elwa o gartrefi cynhesach ac, o bosibl, yn arbed ar eu biliau gwresogi. Erbyn hyn mae yna fesuryddion ym mhob fflat, i fod yn barod erbyn pan ddaw deddfwriaeth i rym pan fydd rhaid i bawb dalu'n unigol. Yn ogystal, rydym wedi gosod system iawndal tywydd, felly yn hytrach na'i fod ymlaen yn barhaol, gall ein preswylwyr ddibynnu ar wresogi effeithiol, ynghyd â'r inswleiddio newydd, gan sicrhau amgylchedd iach a chysurus.”



### Manteision Cymunedol

Nid yn unig y mae ein contractwyr SATC wedi bod yn gweithio'n galed ar uwchraddio ein heiddo Cyngor, maent hefyd wedi bod yn weithgar yn helpu cymunedau lleol mewn ffyrdd amrywiol.

Yn ddiweddar, bu i ddau o'n contractwyr ail osod ceginau mewn nifer o ganolfannau cymunedol yn y sir.



Rhoddodd Novus Solutions geginau a'u ffitio i ddwy Ganolfan Gymunedol yn Nhreffynnon - Llwyn Aled a Llwyn Beuno – cawsant eu haddurno gan ddefnyddio lliwiau cyferbyniol cynnil yn unol â 'Visibly Better Cymru' - cynllun achredu RNIB ar gyfer tai â chymorth ar draws Cymru.



A bu i Keepmoat, contractwr arall, osod cegin newydd yng Nghanolfan Gymunedol Aston.

Dywedodd y Cyngorydd Aaron Shotton:

“Mae safon y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn y lleoliadau hyn yn dda iawn ac yn dangos crefftwaith safonol ar ei orau. Hoffwn ddiolch i'n dau gontractwr, 'Novus Solutions' a 'Keepmoat' – rydym yn gwerthfawrogi eu gwaith caled ac rwy'n sicr y bydd y bobl sy'n defnyddio'r canolfannau'n rheolaidd yn hapus iawn gyda'u hadnoddau gwell.” Mae Tîm Gwaith Cyfalaf Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am uwchraddio mewnol ac allanol i bob eiddo gan y cyngor, gan gydymffurfio â SATC erbyn y flwyddyn 2020.


Meddai Tony Jones, Rheolwr Gwaith Cyfalaf:


“Mae'r rhain yn enghreifftiau gwyb o gontractwyr yn gweithio gyda'n tîm i ddarparu cyfleusterau i'r gymuned ehangach. Mae'r ceginau newydd yma'n ychwanegol i'r ceginau yr ydym wedi eu gosod eisoes mewn cymunedau eraill fel Coppa View ym Mwcle, Chapel Court yng Nghei Connah, a Hawksebury ym Mwcle. Mae contract SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu Mantais Gymunedol fel rhan o'u cytundeb.”

---

## Ysgolion yn ôl i'r dyfodol!

Mwynhewch y lluniau hyn o'r Campws Dysgu newydd yn Nhreffynnon a 6ed Glannau Dyfrdwy yng Nghei Connah – wedi'u hagor yn swyddogol yn ddiweddar gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC.





---

## Y diweddaraf ar ddarpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Yn dilyn adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaeth Ailgylchu ar gyfer Aelwydydd y Cyngor, cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd ym Mai.

Roedd yr adroddiad yn argymhell gostyngiad yn nifer y safleoedd presennol i dri safle wedi eu gosod yn strategol ac a oedd yn fodern ac yn addas i'r diben. O ymgynghoriad cyhoeddus a wnaed ar y pryd, ac o adborth i'r adroddiad gan breswylwyr ac aelodau lleol, roedd yn eglur eu bod eisiau darpariaeth mwy lleol.

Wrth ymateb, gofynnodd Cabinet y Cyngor i swyddogion edrych ar bump opsiwn o ran safle oedd yn ystyried disgwyliadau'r cymunedau ac yn ateb yr angen i'r Cyngor gwrrd â thargedau ailgylchu statudol heriol. Mae arian Cyfalaf wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r newidiadau sy'n cynnwys ailddatblygu 2 o'r safleoedd presennol yn sylweddol, sef Nercwys a Bwcle. Bydd yr ailwampio ymhob safle yn cynnwys mynedfa glir heb risiau a gwell rheolaeth ar drafnidiaeth yn ogystal â chynnydd mewn cyfleoedd ailgylchu.

Dyweddodd y Cynghorydd Kevin Jones, Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd a Gwastraff:

"Mae'r Cyngor wedi gwrrd ar y cyhoedd, bydd gwelliannau safle yn rhoi gwell profiad i'r cwsmer gyda mwy o bwyslais ar aildefnyddio ac ailgylchu a fydd yn ein helpu i gwrrd â'r targedau ailgylchu statudol sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru."

I sicrhau'r cyllid gan Lywodraeth Cymru rhaid i'r gwaith o ailddatblygu fod wedi ei gwblhau erbyn Mawrth. Mae'r cynlluniau sy'n dangos y newidiadau i'w cyflwyno fel rhan o gais cynllunio. Bydd y cynigion yn cael eu harddangos ym mhob un o'r 2 safle er mwyn i'r cyhoedd eu gweld a rhoi sylwadau arnynt.

---

## Llys Raddington



## Ym mis Gorffennaf, dechreuodd gwaith ar y cynllun tai gofal ychwanegol blaenllaw newydd gwerth £10 miliwn ar gyfer pobl hŷn yn y Fflint.

Mae Llys Raddington yn gynllun tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl dros 60 oed, sy'n cael ei ddatblygu gan Tŷ Glas, rhan o Grŵp Tai Pennaf, mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun tai, ar y tir rhwng Coleshill Road ac Earl Street, yn rhan annatod o raglen adfywio gwerth miliynau o bunnoedd Cyngor Sir y Fflint ar gyfer canol y dref, a bydd yn darparu 73 o fflatiau hunangynhwysol un a dwy ystafell wely gyda chyfleusterau cymunedol mewn datblygiad pedwar llawr

Dyfarwyd y contract £8.64 miliwn i adeiladu'r cyfleuster diweddaraf i'r contractwyr blaenllaw, Anwyl. Cyfanswm costau datblygu'r cynllun gan gynnwys caffael tir a ffioedd proffesiynol yw tua £10 miliwn.

Caiff y cynllun ei ariannu gyda Chymorth Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a sicrhawyd gan Gyngor Sir y Fflint, a thrwy gyllid preifat a drefnwyd gan ddatblygwyr Tŷ Glas.

Dywedodd y Cyngorydd Aaron Shotton:

"Wrth weithio gyda'n partneriaid iechyd, rydym yn llwyr ymrwymedig i ofal ychwanegol oherwydd ei fod yn ffordd hynod lwyddiannus o ymateb i anghenion cymdeithasol a thai pobl hŷn. Mae'r cartrefi gofal ychwanegol sydd eisoes yn bodoli yn Llys Eleanor, Shotton a Llys Jasmine, Yr Wyddgrug wedi bod yn eithriadol o dda i drigolion lleol, ac rwy'n sicr y bydd Llys Raddington yr un mor boblogaidd."

Dywedodd Mr Paul Robinson, Cadeirydd Tŷ Glas: "Rydym yn falch iawn o nodi cam arloesol y datblygiad nodedig hwn a fydd yn rhoi'r opsiwn gwych i bobl hŷn yn Sir y Fflint fyw'n annibynnol."

Bydd Llys Raddington yn cynnig opsiwn tai o ansawdd uchel i bobl dros 60 oed sydd am barhau i fyw yn annibynnol, tra'n manteisio ar gyfleusterau cymunedol a chael tawelwch meddwl bod ganddynt fynediad 24 awr i ystod eang o wasanaethau ar gyfer ystod eang o anghenion gofal.

Mae Raddington yn enw sy'n gysylltiedig â hanes y Fflint, gan mai dyma oedd enw'r anheddiad gwreiddiol. Cafodd y dref a elwir bellach yn y Fflint ei chrybwyll gyntaf yn llyfr Domesday yn 1086, lle y cyfeiriwyd ati fel Raddington. Dyma'r ardal lle cafodd Castell y Fflint ei adeiladu, ond erbyn diwedd y 13eg ganrif, cafodd bwrdeistref Fflint ei chreu, a diflannodd yr enw Raddington.

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn ag angen gofal neu gymorth, ac yn teimlo y byddech yn elwa o fyw yng Nghynllun Byw'n Annibynnol Gofal Ychwanegol Llys Raddington, gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol: Rhadffôn: 0800 183 5757, e-bost: [enquiries@tyglas.co.uk](mailto:enquiries@tyglas.co.uk) (<mailto:enquiries@tyglas.co.uk>)

## Seremoni Gwobrau Busnes Blynyddol Sir y Fflint

Chwilio am Fusnesau Gorau Sir y Fflint 2016 ... ..

**Gwobrau yw un o'r arfau marchnata mwyaf pwerus a chost-effeithiol** a gall ennill Gwobr Busnes Sir y Fflint helpu eich busnes i sefyll allan o'r gweddill, anfon neges gadarnhaol i'ch cwsmeriaid presennol a denu busnes newydd. **Pam rhoi cynnig ar Wobrau Busnes Sir y Fflint?**

- Cyfle i brofi eich rhagoriaeth.
- Cydnabod ymdrechion eich tîm.
- Plesio partneriaid, cleientiaid a buddsoddwyr.
- Ymuno â rhwydwaith o sefydliadau eithriadol.

Mae gwobrau'n agored i bob busnes yn Sir y Fflint, unrhyw faint, unrhyw fath o fusnes, busnesau newydd ac enillwyr blaenorol. Gall ennill fod yn hwb go iawn i chi a'ch cyflogaion!

### Y categorïau ar gyfer 2016 yw:

- Gwobr Prentisiaeth, a noddir gan Goleg Cambria
- Gwobr Person Busnes y Flwyddyn, a noddir gan Systemau Busnes B2
- Gwobr Busnes y Flwyddyn gyda dros 10 o weithwyr, a noddir gan Ffederasiwn Busnesau Bach
- Gwobr Busnes y Flwyddyn gyda hyd at 10 o weithwyr, a noddir gan Edge Transport



- Gwobr Busnes i Weithio ynddi , a noddir gan Wagtail International
- Gwobr Entrepreneur, a noddir gan Pochin
- Gwobr Etifeddiaeth, a noddir gan Cyngor Sir y Fflint
- Gwobr i'r Cwmni "Start-up" mwyaf Mentrus, a noddir gan Gyfrifwyr Siartredig DSG
- Gwobr i'r Busnes Mwyaf Gyfrifol yn Gymdeithasol, a noddir gan Wates Living Space
- Technoleg, Arloesi a Gwobr Menter, a noddir gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam

Cymerwch olwg ar ginio Gala Gwobrau y llynedd i weld sut y gallwch chi fod yn rhan o'r digwyddiad mawreddog hwn yng Nghalendr Busnes Sir y Fflint

<https://vimeo.com/156430192> (<https://vimeo.com/156430192>).

I gael rhagor o fanylion: Kate Catherall – 01352 703221 [Kate.p.catherall@flintshire.gov.uk](mailto:Kate.p.catherall@flintshire.gov.uk) (<mailto:Kate.p.catherall@flintshire.gov.uk>).

<http://flintshirebusinessweek.co.uk/about-flintshire-business-awards/award-categories/> (<http://flintshirebusinessweek.co.uk/about-flintshire-business-awards/award-categories/>).

## Beth sydd 'mlaen

### 15 Hydref: Gŵyl Goleuni Abaty Dinas Basing

Bydd gŵyl tafluniadau golau a gweithgareddau addas i'r teulu yn rhad ac am ddim yn cael ei gynnal yn Abaty Dinas Basing, Maesglas, ddydd Sadwrn 15 Hydref 2016.

Bydd Gŵyl Goleuni eleni yn arddangos asedau, amgylchedd a threftadaeth arfordir Sir y Fflint.



Mae'r digwyddiad yn dechrau am 4pm ac yn gorffen am 7:30pm ac mae'n **rhad ac am ddim**. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn **gweithdai gwneud llusernau ac offerynnau taro gydag artistiaid lleol**, i **wrando ar gerddoriaeth acwstig fyw**, dewch â phicnic neu fwynhau BBQ ar y safle, cymryd rhan mewn gorymdaith llusernau gyda'r hwyr ac yna mwynhau diweddglo **perfformiad dawns a thafuniadau**, a fydd i gyd wedi eu creu yn arwain i fyny at y digwyddiad.

Mae gosodiadau celf arbenigol, darnau dawns, tafluniadau ffilm, cerddoriaeth a gweithdai yn cael eu creu gan NEW Dance, artistiaid Ben Davis, Judith Wood, Rob Spaul, Ynyr Llwyd a Honor Pedican yn benodol ar gyfer yr ŵyl. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio gyda chyfranogwyr o amrywiaeth o gymunedau arfordirol ac ysgolion Sir y Fflint mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol mis Medi.

Bydd cerddoriaeth fyw gan gerddorion acwstig lleol, ar y llwyfan y tu mewn i'r abaty, a gorymdaith llusernau cyfnos yn ychwanegu at yr awyrgylch yn yr ŵyl am ddim i bob oed i greu cyfarfyddiad y gobeithir y bydd yn rhoi persbectif newydd ar hanes



a thirweddau'r rhanbarth i bobl, ysbrydoli creadigrwydd yn y rhanbarth ac yn annog pobl i archwilio'r arfordir.


Dywedodd Derek Butler, Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint dros Ddatblygu Economaidd:

“Rydym yn falch o fod yn arddangos ein cymunedau arfordirol amrywiol, ddeniadol a bywiog a threftadaeth gysylltiedig fel y brif nodwedd yn ystod Gŵyl Goleuni Dinas Basing. Rwyf yn siŵr y bydd ymwelwyr â'n rhanbarth arfordirol hardd yn mwynhau'r digwyddiad yn fawr iawn ac yn dychwelyd yn y dyfodol i edrych ar yr ystod lawn o atyniadau ymwelwyr sydd gan Sir y Fflint i'w cynnig.”

Mae'r ŵyl yn cael ei threfnu gan dim celfyddydau, diwylliant a digwyddiadau Cyngor Sir y Fflint gyda chymorth ariannol gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir a Cadw. Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn cael ei chyllido gan y Llywodraeth gydag incwm o asedau morol Ystad Y Goron. Mae'n cael ei ddarparu gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

### 19 Hydref 2016 - Gweithdy Technoleg i dyfu busnes

# Cyflymu Cymru i Fusnesau



## Gweithdy Ysgogi Newid Cyflymu Cymru i Fusnesau Technoleg i dyfu busnes – 19 Hydref 2016

DEALL ~ MABWYSIADU ~ ELWA

DIGWYDDIAD A ARIENNIR YN LLAWN AR GYFER BUSNESAU BACH A CHANOLIG YN SIR Y FFLINT

Ymunwch â Cyflymu Cymru i Fusnesau am gyflwyniad ymarferol a realistig sy'n egluro sut y gall busnesau o unrhyw faint leihau costau a chynyddu elw drwy ddefnydd sylfaenol o dechnoleg ddigidol.

Cewch wybod sut y gallwch ddefnyddio technoleg ddigidol i:

- Arbed arian i'ch busnes – gyda chyfrifiaduro cwmwl talu wrth i chi ddefnyddio a galwadau ffôn trwy'r rhyngwryd (VoIP)
- Gwneud eich busnes yn fwy effeithlon – cael mynediad at eich busnes 24/7 o unrhyw le gyda thechnoleg symudol
- Gwerthu mwy i'ch cwsmeriaid gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Cynyddu presenoldeb eich busnes ar-lein ac ennill mantais ar eich cystadleuwyr
- Deall anghenion eich cwsmeriaid, olrhain arferion prynu, a chadw mwy o gwsmeriaid trwy system rheoli'r berthynas â chwsmeriaid
- Tyfu eich busnes!

ARCHEBWCH  
NAWR

Y cyfan yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddi-jargon a hawdd ei deall – peidiwch a cholli'r cyfle delfrydol hwn i ddysgu mwy am fuddion technolegau digidol. Ysgogwch eich hun!

Digwyddiad delfrydol ar gyfer microfusnesau a busnesau bach a chanolig yn Sir y Fflint

Pentref Gwesty Dewi Sant  
St David's Park  
Deeside  
Flintshire, CH5 3YB

Cofrestru: 10.00yb  
Digwyddiad: 10.30yb – 12.30yh

COFRESTRWCH  
YMA

I Gofrestru

Neu ymwelwch â:

<https://wales.business-events.org.uk/cy/>

Mae archebu lle yn amodol ar fod yn gymwys a bydd Cyflymu Cymru i Fusnesau yn cadarnhau hynny ar ôl i geisiadau ddod i law. Cofiwch, oherwydd faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen hon, dim ond mewn un gweithdy gydol y prosiect y gall busnesau fod yn bresennol. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy>

**Busnes Cymru | Business Wales**

03000 6 03000

busnescymru.llyw.cymru  
businesswales.gov.wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund


27-30 Hydref: Rali GB Cymru



(<http://www.walesrallygb.com/home.php>)\_Cliciwch ar logo hwn i gael gwybod mwy.

## Newyddion gan ein partneriaid

### Rhentu Doeth Cymru - ydych chi'n barod?



Rhentu Doeth Cymru yw'r enw brand ar gyfer gofynion cofrestru a thrwyddedu Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r gyfraith newydd yn gymwys i holl landlordiaid ac asiantau eiddo preswyl preifat yng Nghymru. Os ydych yn rheoli neu'n berchen ar eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat a/neu'n byw mewn eiddo rydych yn ei rentu, bydd y Ddeddf hon yn effeithio arnoch chi.

Bydd Rhentu Doeth Cymru yn gwella delwedd y sector rhentu preifat. Bydd o fudd i'r rhai sy'n rhentu eu cartref yn y sector ac yn gwella arferion landlordiaid ac asiantau.

Ym mis Tachwedd 2015, rhoddwyd 12 mis i landlordiaid ac asiantau gofrestru â Rhentu Doeth Cymru a chael trwydded ganddynt. Mae modd gwneud hyn ar-lein ar wefan Rhentu Doeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bydd y pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o'r gofynion newydd a sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â nhw.

Mae cyrsiau cymeradwy gorfodol wedi'u rhestru ar wefan Rhentu Doeth Cymru. Gallwch ddod o hyd i'r lleoliad agosaf a'u manylion cyswllt a neilltuo lle ar-lein.

I ddysgu rhagor, ewch i [rhentudoeth.llyw.cymru](https://www.rhentudoeth.llyw.cymru) (<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/>) neu ffoniwch 03000 133344.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd a Rhentu Doeth Cymru yn disodli'r cynllun achredu gwirfoddol i landlordiaid a oedd ar waith yng Nghyngor Caerdydd. Yn y dyfodol, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd camau gorfodi yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau cyfreithiol ar ran yr awdurdod trwyddedu.

### Toriad Trydan 105



Mae llawer o bobl yn anmwybodol mai eu **gweithredwr rhwydwaith trydan** y dylent gysylltu â nhw pan fyddant yn cael toriad pŵer. Yn aml maent yn gwneud y camgymeriad o ffonio'r cyflenwr trydan sy'n anfon eu biliau atynt.

Dyna pam fod gweithredwyr rhwydwaith trydan wedi cyflwyno 105 – sef rhif hawdd i'w gofio a fydd yn eich cysylltu â'r bobl leol a all eich helpu.

Gallwch ffonio 105 waeth pa gyflenwr yr ydych wedi dewis prynu'ch trydan ganddo.

<http://www.energynetworks.org/info/powercut105.html> (<http://www.energynetworks.org/info/powercut105.html>), - mae gwybodaeth ar gael ar y wefan hon drwy glicio ar y dolenni tudalennau Cymraeg neu Saesneg.

### Cyflymu Cymru i Fusnesau - Chwe Cham i Gynyddu eich Tanysgrifiadau E-bost

Cyflymu Cymru i Fusnesau



Dyma chwe cham pwysig y gallwch eu cymryd i roi hwb i'ch tanysgrifiadau E-bost!

### 1. Ewch yn organig

Na - nid ydym yn siarad am fwyd! Mae ffyrdd hawdd ac effeithiol o dyfu eich rhestr E-bost. Er mwyn creu cynnwys E-bost marchnata llwyddiannus sy'n dangos elw ar fuddsoddiad (ROI) rhaid ichi ymgysylltu â darllenwyr sy'n malio am eich cynnyrch, wasanaeth neu'r cynnwys a rennir. Os ydych yn prynu rhestr barod ar-lein, efallai y byddwch yn ffafrio maint dros ansawdd. Bydd tyfu eich rhestrau'n organig trwy drosi ymwelwyr gwefan, defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol neu gwsmeriaid newydd yn llawer mwy buddiol yn y tymor hir gan y byddwch yn cychwyn ar y daith gyda darlennydd sydd wedi ymgysylltu.

### 2. Sefwch allan

Pan fyddwch yn glanio ar dudalen hafan y busnes, ydy'r ddolen tanysgrifio E-bost mewn lle amlwg? Manteisiwch i'r eithaf ar eich gwefan a phwyntiau cyswllt ar-lein drwy sicrhau bod y ffurflen gofrestru yn ymddangos mewn man hylaw ac sy'n derbyn y rhan fwyaf o draffig. Mae'n swnio'n amlwg, ond dyna'n union yr hyn ddylai'r broses gofrestru i fod - yn amlwg! Ni ddylai'r defnyddiwr orfod chwilio am eich ffurflen gofrestru, felly gwnewch yn siŵr nad yw wedi'i chladdu ar dudalen sydd wedi darfod neu'n cuddio yn y troedyn ar y dudalen hafan.

### 3. Galwad i weithredu!

Os oes gennych gylchlythyr E-bost - bloeddiwch amdano! Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, dylech gynnwys galwad i weithredu sy'n annog defnyddwyr i gofrestru. Gallai hyn fod mewn blogiau, deunyddiau marchnata, e-dafenni neu gyfryngau cymdeithasol. Dylai pob un o'ch pwyntiau cyswllt ar-lein fod yn cyfeirio at eich cylchlythyr E-bost ac yn cynnig y cyfle i drosi'r defnyddiwr. Dylech gynnwys dolenni uniongyrchol ac iaith glir, weithgar a fydd yn ennyn eu diddordeb ac yn eu harwain i danysgrifio.

### 4. Gwnewch hi'n hawdd

Dylai casglu data defnyddwyr fod yn broses syml a didrafferth. Dylech gyfyngu ar faint o wybodaeth rydych yn casglu i'r hyn sy'n angenrheidiol a dylech sicrhau bod y ffurflen yn hylaw. Os bydd y broses gofrestru yn rhy hir neu'n rhy araf i lwytho, yna mae defnyddwyr yn debygol o golli diddordeb a rhoi'r gorau i'w chwblhau. Wrth i ddefnyddwyr ddod yn fwy ymwybodol a chraff am y ffordd y maen nhw'n rhannu eu manylion, mae'n bwysig eich bod yn cymryd y wybodaeth sydd ei angen arnoch yn unig a gadael i danysgrifwyr wybod sut y bydd eu data yn cael ei ddefnyddio. Byddwch yn agored ac yn onest gyda'ch darllenwyr fel y gallwch ddechrau perthynas onest ac apelgar.

### 5. Ewch ati i gyfleu gwerth cofrestru

Dylech gyfleu'r gwerth y bydd tanysgrifwyr yn ei gael drwy gofrestru ar gyfer eich cylchlythyrau E-bost yn glir. Rhowch wybod am y mathau o gynnwys y gallant ei ddisgwyl yn eu mewnlwch, ynghyd ag unrhyw gynigion neu fargeinion hyrwyddo y byddwch yn bwriadu eu hanfon. Gallech hefyd alluogi darllenwyr i deilwra eu profiad yn seiliedig ar eu dewisiadau fel eu bod yn derbyn newyddion neu fathau o gynnwys penodol yn unig. Bydd bod yn onest gyda thanysgrifwyr yn eu hannog i gofrestru a sicrhau eu bod yn disgwyl eich negeseuon, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn agor yr E-bost.

### 6. Cynigiwch rywbeth amgenach

Os na allwch annog pobl i ymuno gyda'r addewid o gynnwys o ansawdd uchel, beth am gynnig anrheg gychwynnol, disgownt ar bryniad neu gynnwys arbennig iddynt? Bydd cynnig rhywbeth i danysgrifwyr E-bost yn unig yn rhoi rheswm deniadol i ddefnyddwyr gofrestru, a bydd yr addewid o gynnwyr rhad ac am ddim pan fyddant yn prynu neu daleb bersonol hefyd yn annog tanysgrifwyr i drosi'n gwsmeriaid!

Unwaith y byddwch chi'n dechrau adeiladu eich rhestr tanysgrifiad E-bost, yr unig beth ar ôl i'w wneud yw sicrhau eich bod yn mynd ati i rannu cynnwys diddorol a deniadol! Cymrwch olwg ar ein [cyngor ar sut i greu yr e-newyddlen fusnes orau](https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/sut-i-lunior-e-gylchlythyr-busnes-gorau) (<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/sut-i-lunior-e-gylchlythyr-busnes-gorau>).

### A oes gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut i ymgysylltu â'ch cwsmeriaid drwy dechnoleg ddigidol?

Ymunwch â Chyflymu Cymru i Fusnesau mewn Gweithdy arbennig er mwyn cael cyngor ymarferol. [Cofrestrwch nawr!](https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/gweithdy-ysgogi-newid-cyflymu-busnesau-cymru/) (<https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/gweithdy-ysgogi-newid-cyflymu-busnesau-cymru/>).

---

[Taylorfitch](http://www.taylorfitch.com/) (<http://www.taylorfitch.com/>). Dod â newyddleni yn fyw o flaen eich llygaid